Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Clwb Ar ôl Ysgol Teigrod Terrig**

**Clwb Ar ôl Ysgol Teigrod Terrig**
**Ysgol Terrig**
**Treuddyn**
**Yr Wyddgrug**
**CH7 4LN**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

02/11/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Clwb Ar ôl Ysgol Teigrod Terrig

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Darparwr Cofrestredig | Teigrod Terrig |
| Lleoedd cofrestredig | 32 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Nodi â Llaw]<br>18 Ionawr 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb


Mae'r plant yn hapus ac yn brysur. Mae'r staff yn gwrando arnynt ac yn eu parchu. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn cyd-chwarae'n hyderus, gan greu gemau dychmygus gyda'i gilydd. Maent yn rhyngweithio'n dda ac yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Mae'r plant yn annibynnol ac yn cael cyfleoedd da i ddatblygu sgiliau gwahanol.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn rheoli'r rhyngweithio'n dda ac yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant ac yn diwallu eu hanghenion unigol yn effeithiol. Mae'r staff yn cynllunio gwahanol weithgareddau sy'n addas ar gyfer diddordebau'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd addas ar gyfer chwarae a dysgu'r plant. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael gofal da mewn amgylchedd cefnogol a chyfforddus, sy'n ystyried diddordebau'r plant a'u hanghenion unigol.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weithdrefnau i gadw'r plant yn ddiogel ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall gweithdrefnau diogelwch y gwasanaeth ac yn eu dilyn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cynnig cymorth i'r staff yn eu rolau ac maent yn ymrwymedig i wella arferion er budd y plant. Mae partneriaethau cryf â'r rhieni, sy'n dangos pa mor fodlon yw'r rhieni ar y gwasanaeth. Mae proses bontio effeithiol a pherthynas waith dda â'r ysgol, sy'n cynnwys rhannu adnoddau, yn sicrhau bod plant yn hapus ac yn ymgartrefu'n gyflym.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn barod i ddewis yr hyn y maent am chwarae ag ef ac maent yn mwynhau mynd i ddarganfod yn yr ysgol goedwig. Maent yn sgwrsio â'i gilydd ac yn eistedd ochr yn ochr â'r staff wrth sôn am eu cartrefi a'u teuluoedd. Mae'r plant yn penderfynu ble maent am eistedd i gael eu cinio ac mae'r staff yn parchu eu dewisiadau, gan ddangos bod gan y plant lais a bod y staff yn gwrando arnynt.

Mae plant wedi setlo ac mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r staff, ac maent yn barod iawn i fynd at y staff i gael cymorth a sicrwydd, neu er mwyn dangos yr hyn y maent wedi ei gyflawni iddynt. Maent yn dangos beth maent yn ei wneud i ni yn hyderus ac yn dangos eu sgiliau dringo a chydbwyso. Maent yn awyddus i ddangos creision â blasau newydd i ni wrth gael eu cinio ac yn gofyn i ni flasu un. Mae'r plant yn fwy na pharod i fynd at y staff am help ac i sgwrsio'n anffurfiol. Dywedwyd wrthym eu bod yn mwynhau dod i'r lleoliad ac yn mwynhau'r gweithgareddau.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd. Maent yn chwarae â'i gilydd yn llawn dychymyg. Maent yn cydweithredu'n dda â'r oedolion ac yn awyddus i ymuno mewn gweithgaredd paentio, gan gymysgu lliwiau ar raddfa fawr gyda brwdfrydedd. Mae'r plant yn barod i rannu cyfarpar ac yn gwneud ffrindiau â phlant o ysgol arall a ymunodd â nhw dros yr haf yn unig.

Mae'r plant yn weithgar ac yn dysgu drwy chwarae. Mae pawb yn wên o glust i glust ac yn llawn hwyl wrth chwarae gyda'i gilydd. Maent yn chwerthin yn uchel am gampau ei gilydd ar y ffrâm ddringo yn yr awyr agored ac mae eraill yn awyddus i ddangos eu sgiliau gymnasteg. Maent yn creu gemau dychmygol gyda'i gilydd ac nid oes neb sydd am ymuno yn cael ei adael allan. Mae eraill yn hapus yn chwarae gemau electronig gyda ffrindiau, gan wylio beth sy'n digwydd yn awyddus a gwneud sylwadau i geisio gwella sgoriau eu ffrindiau.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddod yn annibynnol. Maent yn cael eu hannog i archwilio a phrofi eu hunain i weld pa mor uchel y gallant ddringo'n ddiogel ar y cyfarpar. Mae'r plant yn teimlo'n gartrefol â'r drefn feunyddiol, ac maent yn mwynhau bod yn y lleoliad. Maent yn hapus i fod yng nghwmni ffrindiau ac yn awyddus i ddangos pa fwyd sydd ganddynt i'w cinio. Maent yn datblygu sgiliau pobi effeithiol am eu bod yn gwneud pitsa i fynd adref ag ef.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn deall yn dda sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt bryderon diogelu am blentyn. Mae'r staff yn caniatáu digon o amser i siarad â'r rhieni ar ddiwedd y sesiwn er mwyn parhau i ddiwallu anghenion unigol y plant. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'r hyn y mae deiet iach yn ei olygu, ac yn rhoi byrbrydau maethlon i'r plant. Maent yn sicrhau bod cofnodion y plant wedi'u cwblhau, gan gynnwys unrhyw anghenion iechyd. Roedd cofrestr yn dangos presenoldeb y plant ac roedd unrhyw ddamweiniau a mân anafiadau'n cael eu nodi a'u dwyn i sylw'r rhieni. Mae asesiadau risg, gan gynnwys y rhai ar gyfer mynd am dro, yn cael eu dilyn sy'n dangos bod staff yn gwybod sut i gadw'r plant yn ddiogel.

Mae'r staff yn gyson o ran rhoi canmoliaeth gadarnhaol i blant, er enghraifft am rannu neu am gwblhau olwyn-droi gymnastig. Mae'r staff yn fodelau rôl da ac yn neilltuo amser i siarad â'r plant, gan ateb eu cwestiynau'n effeithiol. Roedd y staff yn ddigyffro ac yn dyner â'r plant. Roeddent yn defnyddio llais tawel ac yn sicrhau bob pob un o'r plant yn eu deall, gan eu hatgoffa am reolau syml fel peidio â rhedeg o gwmpas y neuadd.

Mae'r staff yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd. Maent yn adnabod y plant ac yn gallu rhoi lefel dda o ofal iddynt. Roedd y staff yn gwybod yn reddfol pryd i gamu'n ôl a rhoi cyfle i'r plant chwarae ar eu pen eu hunain, a phryd i ymuno yn yr hwyl. Maent yn cynllunio gweithgareddau diddorol ar gyfer y gwyliau, gydag ymweliadau i'r fferm leol lle mae'r plant yn mwynhau ysgytlaeth. Mae'r staff yn rhoi cyfleoedd da i'r plant feithrin eu sgiliau yn y awyr agored pan fyddant yn teimlo eu bod yn barod, megis sgiliau cydbwyso a dringo. Maent yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol yn effeithiol.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac mae'n darparu lle diogel a chyfforddus i blant ymlacio a dysgu drwy brofiadau gwahanol. Mae'r drysau dan glo a gofynnir i ymwelwyr lofnodi wrth ddod i mewn er mwyn cadw'r plant yn ddiogel. Mae ymarferion tân rheolaidd yn dangos bod y staff a'r plant yn gwybod sut i adael y safle mewn argyfwng yn ddiogel. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau, ac maent yn goruchwylio'r plant yn dda yn ystod gweithgareddau, boed hynny dan do neu ac yn yr awyr agored.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd addas iawn ar gyfer chwarae a dysgu'r plant. Mae toiledau gerllaw y gall y plant eu defnyddio a gallant rannu rhai o adnoddau awyr agored ardderchog yr ysgol megis y cyfarpar chwarae pren ac ardal fawr yr ysgol goedwig sy'n cynnwys llwyfan a sawl caban a chuddfan. Mae'r plant yn cael gofal da mewn amgylchedd cefnogol, sy'n ystyried eu diddordebau a'u hanghenion unigol. Mae amrywiaeth dda o adnoddau ar gael dan do sy'n rhoi cyfle i'r plant ddatblygu eu chwarae eu hunain drwy ddewis eu teganau a'u cyfarpar eu hunain.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod amrywiaeth dda o adnoddau a chyfarpar ar gael i'r plant. Maen'r rhain o ansawdd da, yn naturiol ac wedi'u hailgylchu sy'n ddelfrydol ar gyfer anghenion a syniadau'r plant. Mae digonedd o adnoddau megs teganau, papur a chrefft ac eitemau bwyd, sy'n sicrhau bod cyfarpar ar gael i gynnig gweithgareddau diddorol i'r plant, y mae'r staff yn aml yn ymuno ynddynt.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ei reoli'n dda. Maent yn brofiadol ac yn wybodus am arferion gofal plant cyfredol. Mae'r datganiad o ddiben yn glir ac yn nodi'r hyn y mae'r lleoliad yn ei ddarparu. Mae hyn yn helpu'r rhieni i wneud dewis ar sail gwybodaeth ynghylch y math o ofal plant sydd ei angen arnynt. Caiff polisïau a gweithdrefnau eu diweddaru, sy'n sicrhau bod y staff yn gyfarwydd â'r prosesau cyfredol. Caiff cofnodion dyddiol eu cadw, gan gynnwys y rhai y mae angen i'r rhieni eu llofnodi.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwella'r ddarpariaeth drwy'r amser. Maent yn adnabod eu gwasanaeth yn dda ac yn monitro ac yn gwerthuso'r hyn sy'n digwydd. Caiff safbwyntiau'r rhieni a'r plant eu hystyried a nodir meysydd i'w gwella a a gweithredir arnynt.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod prosesau recriwtio staff yn gadarn. Mae'r holl wiriadau ar waith i ddangos bod y staff yn addas i weithio gyda phlant, gan gynnwys gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r arfarniadau yn ystyrlon ac yn cynnwys datblygiad a hyfforddiant yn y dyfodol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gyfeillgar, gan ddweud eu bod yn hapus ac yn mwynhau dod i'r clwb. Roeddent yn gweithio'n dda fel tîm, gyda phob un ohonynt yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn barod i arwain y plant yn briodol. Mae hyn yn golygu bod y plant yn mwynhau'r gofal a roddir gan staff digyffro.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni sy'n cyfrannu at lesiant plant. Mae cyfathrebu da â'r rhieni. Maent yn cael amser i sgwrsio am eu plant bob dydd. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yn neuadd yr ysgol ac mae'n rhannu rhai ardaloedd dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r plant yn cael budd o'r gymuned leol drwy fynd am dro i leoedd o ddiddordeb yn ystod y gwyliau megis y fferm leol lle maent yn gweld moch bach, yn cael ysgytlaeth a chaiff pob un ohonynt bwmpen.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Dim

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 12/12/2022